



Adroddiad Swyddog Datblygu'r Rheilffordd Mai 2016

Prosiect 'Shopmobility' Gorsaf Aberystwyth:

Bu rhai misoedd ers i hyn gael ei drafod, ond rwyf yn falch fod gennym bellach gytundeb gyda CAVO/darparwyr gwasanaeth 'shopmobility' i ddarparu gwasanaeth 'cwrdd a chroesawu' yng ngorsaf Reilffordd Aberystwyth i ddarparu ar gyfer y bobl hynny sydd angen cymorth gyda symudedd. Bydd y gwasanaeth yma'n agored i bobl ddaw ar y trên i Orsaf Reilffordd Aberystwyth a sydd wedi trefnu ymlaenllaw i gael sgwter 'shopmobility'. Bydd cynrychiolydd yn eu cyfarfod yn yr orsaf i roi'r hyfforddiant/gwybodaeth angenrheidiol ar ddefnyddio'r cerbyd yn ogystal â throsglwyddo'r sgwter. Mae rhan benodol wedi ei dynodi yn yr orsaf ac rydym yn gweithio gyda darparwyr 'shopmobility' i gael arwyddion a marciau yn y rhan yma o'r orsaf. Gwneir y gwaith yma gyda chydweithrediad Trenau Arriva Cymru ac mae yn enghraifft arall o sut y gallwn hwyluso prosiectau er budd y bobol hynny sydd efallai angen cymorth ychwanegol.

Help Llaw - prosiect ffilm a gwaith dilynol:

Rydym yn parhau i gael adborth ardderchog o'r ffilm ac yn fy marn i mae'n enghraifft arbennig o sut y gall partneriaeth rheilffordd gymunedol weithio gyda chwmni gweithredu trenau i gynhyrchu rhywbeth sydd ag effaith gadarnhaol a phell gyrrhaeddol i ystod eang o bobol.

Mae'r ffilm yma yn awr wedi helpu i ddylanwadu ar raglen hyfforddiant mewnol Trenau Arriva Cymru ar draws eu hardal i'r graddau fod hyfforddiant am Gynllun y Waled Oren yn cael ei gyflwyno i'r holl staff sy'n ymdrin â'r cyhoedd ac mae'r holl staff yn y swyddfeydd tocynnau yn dangos sticeri 'Derbynnir y Waled Oren yma' ar y drysau.

Rydym yn gobeithio gallu dylanwadu ar Gwmnïau Gweithredu Trenau (yn enwedig yn grŵp Arriva DG!) er budd cynulleidfa ehangach ar draws y DG.

Yn y dyfodol agos rydym yn bwriadu rhoi cyflwyniad ar y prosiect yma yn San Steffan gyda chymorth Liz Saville Roberts yr Aelod Seneddol.

Cesys Posteri

Rydym wedi prynu 20 o gesys posterï mawr ac maent yn y broses o gael eu gosod mewn gorsafoedd dethol ar lein y Cambrian. Rydym yn gobeithio prynu rhagor eleni fel bod o leiaf un ohonynt ar gyfer y bartneriaeth a/neu prosiectau cymunedol ymhob Gorsaf ar Reilffordd y Cambrian. Defnyddiwyd tîm gofal gorsafoedd TAC i ymgymryd â'r gwaith o osod y cesys.

Mae gennym nifer o bosterï wedi eu creu gan ddisgyblion ysgol fel rhan o'r prosiect cymunedol a byddant yn cael eu harddangos yn y cesys yma, rydym hefyd wedi cynhyrchu rhai posterï i gyd-fynd â rhai o'n taflenni newydd.

Cyhoeddiadau:

Erbyn hyn mae gennym 2 lyfryn newydd i ymwelwyr sef - 'Traethau a Chestyll' sy'n sôn am bob traeth a chastell ar Reilffyrdd y Cambrian; a'r trydydd yn y gyfres 'Cymru ar y Cledrau' a gynhyrchwyd ar y cyd gyda Rheilffyrdd Calon Cymru ac Amwythig i Gaer. Cafodd y rhain eu dosbarthu yn gynharach yr wythnos yma a chafwyd derbyniad da yn y digwyddiad 'Rheilffyrdd Cymunedol yn y Ddinas' a fynychais yng Ngorsaf New Street ym Mirmingham.

Rheilffyrdd Cymunedol Cymru

Rheilffyrdd Cymunedol yn y Ddinas - Gorsaf Brimingham New Street 11/05/16. Ar ddydd Mercher fe wnaeth y partneriaethau rheilffyrdd cymunedol gymryd drosodd rhai o brif orsafoedd rheilffordd y DG fel rhan o ddigwyddiad drwy'r wlad a drefnwyd gan ACoRP (Cymdeithas Partneriaeth Rheilffyrdd Cymunedol). Fe fum i a chydweithwyr o reilffyrdd Calon Cymru, Amwythig i Gaer a Rheilffordd Dyffryn Conwy yng ngorsaf Birmingham New Street yn hyrwyddo ein rheilffyrdd a rhoi rheswm i bobl oedd yn mynd heibio i ddod i Gymru am y diwrnod, gwyliau byr neu wyliau'r haf. Buom yn siarad gyda channoedd o bobl oedd â diddordeb gwirioneddol/cywreinerwydd a hyderaf y gallwn adeiladu ar hyn yn y dyfodol a gwahodd rhai o'r atyniadau i ymwelwyr i'r digwyddiad hefyd.

Gwefan

Mae nifer yr ymwelwyr yn cynyddu fel y disgwylid a'r tymor ymwelwyr bron yma ac mae hi'n ddiddorol nodi bod cynnydd sylweddol yn nifer yr ymwelwyr ar ein tudalennau Facebook a Twitter o ganlyniad i'r digwyddiad ym Mirmingham yr wythnos yma!

Cyfeiriwch os gwelwch yn dda at ein hadolygiad blynyddol i gael rhagor o wybodaeth.

Diolch yn fawr / Many thanks.

Rhydian Mason

**Swyddog Datblygu'r Rheilffordd
Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian
12/05/13**